Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Ebrill i Fehefin 2021

Data ar gyfraddau absenoldeb salwch y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG ar gyfer Ebrill i Fehefin 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 17 Tachwedd 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 17 Tachwedd 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Prif bwyntiau**

**Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch**

**Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG**

**Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff**

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**

**Manylion cyswllt**

# Cyflwyniad

Dangosir gwybodaeth newydd ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2021. Mae data ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2021 wedi'i ddiwygio.

Mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) presennol, mae gwybodaeth reoli ychwanegol a mwy amserol yn cael ei chasglu ar absenoldeb oherwydd salwch. Nid yw'n cael ei chasglu ar yr un sail â'r hyn a gyhoeddwyd yn y datganiad chwarterol hwn, ac felly bydd y ffigurau'n wahanol.

Mae'r wybodaeth reoli yn awgrymu bod cyfartaledd dyddiol o tua 900 (0.9%) o staff yn hunanynysu dros y chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2021, gyda'r ffigurau yn gostwng pob mis o gyfartaledd o tua 1,200 ym mis Ebrill i gyfartaledd o ychydig dros 700 yn ystod mis Mehefin. Cyhoeddir gwybodaeth ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

coronafeirws a gweithgarwch a chapasiti'r GIG mewn diweddariad wythnosol.

Mae nifer o ffactorau sy’n gysylltiedig â COVID-19 wedi effeithio ar y data'r chwarter hwn:

- roedd cyngor gwarchod i’r rhai eithriadol o agored i niwed yn glinigol mewn lle drwy gydol y chwarter
- roedd brechlynnau ar gael i weithwyr gofal iechyd (ac eraill) o fis Rhagfyr 2020
- roedd yr ail uchafbwynt o ran achosion a gadarnhawyd ar ddechrau mis Ionawr 2021

Mae staff eithriadol o agored i niwed yn glinigol ar y rhestr gwarchod, ac felly nad ydynt yn y gwaith oherwydd hyn, yn cael eu cynnwys yn y cyfrif hunanynysu a gesglir yn y wybodaeth reoli. Yn yr ystadegau swyddogol hyn, nid yw staff y GIG sy'n hunanynysu neu’n gwarchod yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n sâl, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau absenoldeb oherwydd salwch chwarterol hyn. Dylid parhau i ystyried yr ystadegau swyddogol yn ffynhonnell awdurdodol data ar absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru.

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Cyhoeddir y data sydd wedi’i gynnwys yn y datganiad hwn ar **StatsCymru**.

# Prif bwyntiau

Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch cyfartalog ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 oedd 5.7%. Roedd y cyfartaledd wedi bod yn cynyddu yn araf ers 2018 ond cynyddodd yn amlwg yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020. Arhosodd yn gymharol sefydlog am y chwarteri nesaf cyn gostwng yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2021

- Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn 5.5%, i lawr 1.0 pwynt canran o gymharu â’r chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2020.
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf, 8.1%.
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf, 1.7%.
- Y grŵp staff â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf oedd y grŵp Ambiwlans, 8.8%.
- Y grŵp staff â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf oedd staff Meddygol a Deintyddol, 1.5%.

Mae’r canrannau yn y datganiad hwn wedi’u talgrynnu i’r 0.1 agosaf; cyfrifir newidiadau pwyntiau canran gan ddefnyddio’r rhifau heb eu talgrynnu.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch

### Siart 1: Tueddiadau yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yng Nghymru, fesul mis, Mehefin 2016 i Fehefin 2021




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

## Absenoldeb oherwydd salwch ar StatsCymru

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn dangos amrywiad tymhorol eang drwy gydol y flwyddyn gyda'r gyfradd yn is yn yr haf ac yn uwch yn y gaeaf. Er mwyn darparu gwybodaeth gliriach am newidiadau hirdymor i gyfradd absenoldeb oherwydd salwch dangosir cyfartaledd symudol 12 mis yn Siart 1. Mae'r siart yn dangos bod y cyfartaledd symudol 12 mis wedi parhau tua 6.0% dros y flwyddyn hyd at Ionawr 2021 ond ers hynny mae wedi dechrau gostwng.

Mae'r siart hefyd yn dangos mai cyfradd absenoldeb oherwydd salwch mis Ebrill 2020 yw'r gyfradd fisol uchaf a gofnodwyd (7.5%) wedi ei ddilyn gan fis Rhagfyr 2020 (7.1%). O ystyried yr amseriad mae hyn yn fwy na thebyg oherwydd


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

COVID-19. Nid yw staff y GIG sy'n hunanynysu, sy’n cynnwys staff sy’n gwarchod, yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n sâl ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Gellir dod o hyd i gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch misol yn ôl **sefydliad** a **grŵp staff** ar **StatsCymru**.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl sefydliad y GIG

## Siart 2: Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yn ôl sefydliad, chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

### Canran a oedd yn absennol yn ôl sefydliad a dyddiad ar StatsCymru

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru oedd a'r gyfradd oherwydd salwch uchaf (8.1%) o holl sefydliadau'r GIG y chwarter yma, gyda'r


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfradd isaf yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (1.7%).


Cwm Taf Morgannwg oedd a'r gyfradd oherwydd salwch uchaf (6.4%) o'r holl fyrddau iechyd lleol (BILlau) ar gyfer y chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2021, gyda'r gyfradd isaf yn Hywel Dda (4.9%).

O gymharu â'r un chwarter yn 2020, roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn uwch ym MILI Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Felindre a'r Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Roedd yn is ym mhob sefydliad arall.

Mae data ar gyfer pob sefydliad ar gael ar **StatsCymru**.

# Absenoldeb oherwydd salwch yn ôl grŵp staff

**Siart 3: Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG yn ôl grŵp staff, chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol**




Ffynhonnell: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Canran a oedd yn absennol yn ôl grŵp staff a dyddiad ar StatsCymru

O’r chwe grŵp staff, y grŵp Ambiwlans oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch uchaf y chwarter yma (8.8%).

Staff Meddygol a Deintyddol oedd â’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isaf y chwarter yma (1.5%) fel sydd wedi bod yn wir ers dechrau casglu data yn 2009.

Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn uwch yn y grŵp staff Ambiwlans yn y chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2021 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Bu lleihad yn y gyfradd ym mhob grŵp staff arall.

Mae data ar gyfer pob grŵp staff ar gael ar **StatsCymru**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Daw'r data o Gofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

16 Chwefror 2022

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 6735
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 357/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Absenoldeb oherwydd salwch y GIG: Ebrill i Fehefin 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.